RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
12/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/03/2016

# Papur gwyntyllu ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

## 1. Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.1 Diben y gwaith ymchwil hwn oedd paratoi papur yn amlinellu'r opsiynau posibl sydd gan Lywodraeth Cymru i wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru, yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth gadarn ddiweddaraf. Roedd y gwaith yn cynnwys arfarniad o lenyddiaeth a dogfennau polisi perthnasol, ynghyd ag adborth a barn amrywiaeth o randdeiliaid allweddol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae dwy brif elfen i'r fethodoleg: a) adolygiad o bolisi a thystiolaeth yn seiliedig ar y llenyddiaeth, dogfennau polisi a thystiolaeth werthuso mwyaf perthnasol; a b) cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn canolbwyntio ar y materion sy'n effeithio ar ddarpariaeth chweched dosbarth yng Nghymru ac effeithlonrwydd yr opsiynau sy'n deillio o'r adolygiad o bolisi a thystiolaeth.

*Adolygiad o bolisi a thystiolaeth*

2.2 Ffynonellau'r chwiliad hwn am ddogfennau perthnasol oedd: a) dau chwiliad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru; a b)

chwiliad o'r llenyddiaeth academaidd. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gefndir a datblygiad polisi addysg Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr elfen ôl-16.

*Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol*

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn gyda chyfanswm o 18 unigolyn o 14 corff allweddol sy'n llunio polisi ôl-16 a grwpiau buddiant ôl-16 yng Nghymru, er mwyn:

- creu darlun o safbwyntiau am ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru
- deall y materion craidd sy'n ymwneud ag unrhyw newidiadau sydd mewn golwg
- amlinellu a thrafod opsiynau posibl ar gyfer newid.

## 3. Canfyddiadau allweddol

3.1 Roedd yr ymchwil ddesg a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol yn canolbwyntio ar chwe thema allweddol, ac mae'r canfyddiadau allweddol i'w gweld isod o dan bob thema:

*1. Beth a olygwn wrth ddefnyddio'r termau 'effeithlonrwydd' a 'perfformiad'?*

- Mae defnyddio termau economeg mewn perthynas ag addysg yn gallu golygu gwella effeithlonrwydd drwy leihau cyfartaledd cost darpariaeth (y myfyriwr).
- Mae gwella effeithlonrwydd yng nghyd-destun addysg yn tueddu i anwybyddu materion yn ymwneud ag ansawdd darpariaeth a mynediad at ddarpariaeth.
- Gwella effeithiolrwydd o ran cost, yn hytrach nag effeithlonrwydd, ddylai fod wrth galon y drafodaeth.
- Yn rhy aml o lawer, nid oes cyfatebiaeth rhwng polisïau a chyfrifoldebau, o ran cymhellion i awdurdodau lleol (ALlau), ysgolion a darparwyr addysg bellach (AB) weithio gyda'i gilydd i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Mewn ysgolion, diffinnir gwerth am arian fel darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, sef, mewn geiriau eraill, gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Nid yw ansawdd, deilliannau, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost darpariaeth wedi eu gwerthuso'n ddigonol.
- Nid yw ysgolion a cholegau AB yn ddigon cymaradwy, o ran eu data perfformiad.
- Roedd yr angen am ddata perfformiad cymwysterau cymaradwy rhwng darparwyr ôl-16 i fod yn sail i unrhyw benderfyniadau am ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru yn y dyfodol yn farn gyffredin.
- Mae heriau yn cynnwys costau trafnidiaeth uchel, effaith symud dysgwyr rhwng darparwyr i gael mynediad at ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny ac, yn hollbwysig, diffyg tystiolaeth o sut mae gwasgaru rhagor ar fyfyrwyr rhwng ardaloedd yn effeithio ar gyfraddau cadw a chyflawni yn y sector ôl-16.

*2. Y drafodaeth am faint ysgolion/maint dosbarthiadau*

- Mae peth tystiolaeth mai maint ysgolion sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fyfyrwyr difreintiedig, o ran eu bod yn perfformio'n well mewn ysgolion llai (cynradd ac uwchradd).

- Mae diffyg sail dystiolaeth am effaith newidiadau mewn maint ysgolion ar ddeilliannau gwybyddol ac anwybyddol [1].
- Er mwyn i chweched dosbarth ysgol fod yn hyfyw, y farn gyffredinol yn y llenyddiaeth oedd y dylai gynnwys o leiaf 150 o fyfyrwyr, ond mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol.
- Fel yn achos maint ysgolion, mae ymchwil i faint dosbarthiadau yn canolbwyntio'n bennaf ar dystiolaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd yn hytrach na dysgu ôl-16.
- Yn gyffredinol, er bod tystiolaeth sylweddol am y maint delfrydol i sicrhau effeithlonrwydd a pherfformiad yn achos ysgolion a dosbarthiadau, nid yw'n rhoi canlyniad pendant.

3. *Dewis i ddysgwyr a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)*
    - Mae'n ofynnol i'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr 16-18 oed gynnwys o leiaf 30 cwrs astudio, gyda phump ohonynt yn gyrsiau galwedigaethol cymwys.
    - Ymhlith gwaith arloesol mewn partneriaethau 14-19 lleol mae sefydlu byrddau partneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac ysgolion a cholegau lleol, amserlenni cyffredin a chyfleusterau trafnidiaeth helaeth i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth.
    - Mae manteision wedi deillio o fwy o waith partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau, yn cynnwys mwy o ddewis i ddysgwyr, a rhai pobl ifanc yn parhau i ddysgu pan allent fod wedi ymddieithrio o addysg.
    - Roedd ysgolion mawr â dosbarthiadau chwech mawr yn gallu bodloni gofynion ôl-16 y Mesur, ond nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu darparu cyrsiau galwedigaethol a oedd yn gofyn am gyfleusterau arbenigol.
    - Nid oes amheuaeth fod y Mesur wedi gwella'r dewis i ddysgwyr ac wedi sicrhau mwy o gydweithio rhwng darparwyr.
    - Ond, cafwyd amrywiaeth yn ystod y cyrsiau, dyblygu cyrsiau, a gormod o gyrsiau anghynaliadwy.
    - Roedd diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd.
    - Roedd rhai ysgolion yn gyndyn o gydweithio.
    - Nid oedd ansawdd a hyfywedd y ddarpariaeth yn cael eu harfarnu'n ddigonol.
    - Mae diffyg tystiolaeth gadarn am effaith cynnig dewis ehangach i ddysgwyr trwy gyfrwng darpariaeth gydweithredol ledled Cymru, o ran ei chyfraniad at wella cyfraddau cadw a chyrhaeddiad a lleihau absenoldeb a gwaharddiadau ymhlith myfyrwyr.

[1] Sgiliau anwybyddol yw pethau fel agwedd, ymddygiad a strategaethau sy'n hwyluso llwyddiant yn yr ysgol a'r gweithle, fel cymhelliant, dyfalbarhad a hunanreolaeth. Gelwir y ffactorau hyn yn rhai 'anwybyddol' oherwydd ystyrir eu bod ar wahân i'r sgiliau gwybyddol ac academaidd sy'n cael eu mesur gan brofion neu asesiadau athro fel rheol.

*4. Pontio'r bwlch rhwng dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol*

- Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi cyflwyno ac ehangu mynediad at ddysgu galwedigaethol i fyfyrwyr chweched dosbarth.
- Mae rhai ysgolion yn cyfyngu ar eu harlwy galwedigaethol mewn meysydd â chost uwch.
- Mae trefniadau pontio rhwng ysgolion a cholegau AB yn wan ar y cyfan.
- Mae rhwydweithiau lleol a rhanbarthol 14-19 wedi gwneud cyfraniad pwysig at gryfhau'r cysylltiadau rhwng dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol.
- Yr argraff yw bod dysgu academaidd sy'n digwydd mewn amgylchedd chweched dosbarth traddodiadol yn cynnig darpariaeth o safon ac ansawdd uwch na dysgu galwedigaethol sy'n digwydd mewn lleoliad AB.
- Nid yw'r ddau yn ennyn yr un faint o barch fel petai hyd yn hyn.

*5. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg*

- Cyfeiriwyd at enghreifftiau o gydweithio arloesol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu elwa ar gwricwlwm eang. Ni fyddai hyn wedi digwydd mewn rhai achosion heb gael cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer darpariaeth 14-19.
- Mae prinder athrawon mewn rhai meysydd pwnc a main dosbarth anhyfyw yn golygu bod cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml yn lleihau yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac eto wedyn yn y chweched dosbarth.
- Ochr yn ochr â phrinder athrawon medrus i addysgu cyrsiau galwedigaethol lefel uwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector AB, mae prinder dilyswyr ac adnoddau ar gael i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Mae trefniadau ôl-16 sydd eisoes ar waith yn golygu bod darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg yn gallu ffynnu mewn rhai ardaloedd. Dywedwyd bod darparwyr cyfrwng Cymraeg yn fwy creadigol wrth fynd ati i fodloni gofyniad Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i gynnig 30 cwrs (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012).

*6. Yr ardal leol – ffactorau trefol a gwledig*

- Mae yna 'economi gymysg' o fewn a rhwng awdurdodau lleol, gyda chweched dosbarth ysgolion, ffederasiynau a darpariaeth drydyddol yn bodoli ochr yn ochr;
- Mae'r gwahaniaethau mewn trefniadau llywodraethu a rheoli rhwng chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB yn creu cystadleuaeth;
- Gall cymhellion a threfniadau cyllido sefydliadol weithio yn erbyn buddiannau dysgwyr unigol, fel bod angen cydweithredu, ad-drefnu a rhesymoli;
- Cafwyd consensws na fyddai modd gweithredu model un ateb sy'n addas i bawb, fel trefniadau trydyddol, ledled Cymru, er y gallai fod yn fwy cost-effeithiol mewn ardaloedd trefol;
- Mae trafnidiaeth yn parhau i gael ei hystyried yn broblem sylweddol, gyda'r gost, yr amser a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chludo dysgwyr i ddarparwyr eraill, yn enwedig ardaloedd gwledig, yn rhwystrau ymarferol i gydweithio a rhesymoli darpariaeth;

- Mae dysgu o bell, fideo-gynadledda a thiwtoriaid yn teithio rhwng safleoedd yn dechrau cael eu datblygu a'u gweithredu;
- Gellid datblygu darpariaeth allgymorth i sicrhau darpariaeth ar draws ardaloedd lleol;
- Byddai'n haws mapio ac olrhain dysgwyr ôl-16 pe baent wedi'u lleoli gydag un darparwr;
- Ar y cyfan, nid yw ad-drefnu wedi gallu dal i fyny gyda'r lleihad mewn niferoedd mewn ysgolion;
- Bernir bod rhai awdurdodau lleol yn llesteirio datblygiad consortia rhanbarthol ac yn dyblygu eu swyddogaethau, ac mae amwysedd ynghylch trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd wedi arwain at reoli annigonol.

## 4. Casgliadau/Argymhellion

4.1 Mae'r astudiaeth hon wedi tynnu sylw at y canlynol:

- Nid yw nifer, perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech wedi bod yn destun adolygiad strategol cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd.
- Mae diffyg tystiolaeth gadarn yn y llenyddiaeth i ategu'r syniad nad yw chweched dosbarth â llai na 150 o fyfyrwyr (myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13) yn hyfyw. Roedd y ffigur hwn yn deillio o gyfrifiadau a wnaed yn y 1990au ac mae'n bryd ei ailasesu.
- Mae cysylltiad cryf rhwng y risg gynyddol o groes-gymorthdalu o weddill y gyllideb ysgol a chynnal dosbarthiadau chwech bach. Mae angen cynnal asesiad pellach o effaith lleihau'r adnoddau a ddyrennir i ddisgyblion ysgol iau o dan yr amgylchiadau hyn, yn ogystal â dichonoldeb y dull hwn yn yr hirdymor.
- Mae'r llenyddiaeth academaidd helaeth ar faint delfrydol dosbarthiadau ac ysgolion yn anwybyddu i bob pwrpas y lleoliad ôl-16 ac mae'n ymddangos bod consensws bod adnoddau yn rhoi canlyniadau mwy effeithlon mewn meysydd fel cynyddu effeithiolrwydd athrawon.
- Mae angen diffinio a monitro'n ofalus y termau 'perfformiad' ac 'effeithlonrwydd', ynghyd â sut mae marchnad addysg ôl-16 yn gweithio, i sicrhau nad yw anghenion a chyrhaeddiad dysgwyr unigol yn cael eu disodli gan waith gosod targedau gan sefydliadau a chystadleuaeth o fewn a rhwng darparwyr gwahanol.
- Er nad oes amheuaeth fod Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009) wedi rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr ôl-16 ac, mewn sawl ardal, wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau, mae prinder tystiolaeth gadarn o hyd i ddangos ei fod wedi gwella cyfraddau cadw a chyrhaeddiad yn y sector ôl-16. Yn ogystal, rhaid cwestiynu cost uchel cynnal y Mesur, yn enwedig o ran costau cludiant yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ynghyd â thystiolaeth o ddyblygu cyrsiau a dosbarthiadau o faint anghynaliadwy.
- Nid oes sôn yn y llenyddiaeth am ffactorau sydd angen eu hystyried mewn perthynas â dewisiadau seiliedig ar ffydd.
- Mae bylchau sgiliau ac adnoddau wrth addysgu cyrsiau galwedigaethol lefel uwch

drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Rhoddwyd enghreifftiau o gydweithio arloesol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu elwa ar gwricwlwm eang. Dylai defnydd effeithiol o athrawon symudol, cydweithio trawsffiniol rhwng ysgolion a rhannu gwybodaeth ac arfer da gael eu mabwysiadu'n ehangach.
- Mae bylchau yn y dystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â: phrinder athrawon ac adnoddau eraill mewn pynciau galwedigaethol a sut gellid llenwi'r bwlch hwn, er enghraifft, drwy gymhellion ariannol, addysg athrawon a hyfforddiant yn y swydd; ehangu dysgu seiliedig ar waith a sut gellir ehangu digon ar ymgysylltiad cyflogwyr a phrentisiaethau a'u gwneud yn ddeniadol i bobl ifanc a chyflogwyr; gwella nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau arholiadau (yn hytrach nag astudio cyrsiau) a sut gellir gwella poblogrwydd a phroffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sector ôl-16 a thu hwnt, yn cynnwys gweithio'n agosach gyda rhieni.
- Mae toriadau i wasanaethau cynghori a ddarperir gan Gyrfa Cymru wedi arwain at fwy o bryder ynghylch gallu llawer o fyfyrwyr i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i'w cynorthwyo gyda'u cynllunio ôl-16, ynghyd â phryder am allu llawer o athrawon i gyflawni'r gofyniad hwn.
- Mae angen mwy o gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru o ran pennu strwythur darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y dyfodol ac, yn hollbwysig, o ran ysgwyddo rôl strategol wrth weithredu newidiadau yn y dyfodol.

**Symud Ymlaen**

4.2 Mae asesiad o ddichonolrwydd yr opsiynau posibl ar gyfer newid y ddarpariaeth chweched dosbarth yn awgrymu'r canlynol:

***1. Cadw'r status quo***

Mewn hinsawdd o leihau cyllidebau a chyfyngiadau ariannol, nid yw cynnal a datblygu'r trefniadau cyfredol yn opsiwn bellach. Fodd bynnag, mae 'ble' mae angen newid a 'beth' sydd angen ei newid a sut bydd hyn yn cael ei gyflawni yn llai syml.

***2. Gweithredu'r cynigion ffiniau rhanbarthol, er mwyn cyflwyno arlwy ôl-16 'cyson' rhwng ardaloedd lleol***

Er y byddai model rhanbarthol yn cyd-fynd â datblygiadau polisi diweddar o ran ad-drefnu llywodraeth leol a gwella ysgolion, mae'r strwythurau rheoli cyfredol, pwerau statudol ac, yn hanfodol, yr amserlenni ar gyfer gweithredu newid effeithiol, wedi cael eu beirniadu'n hallt. Nid oedd gan fodelau cyflawni rhanbarthol blaenorol ar gyfer darpariaeth 14-19 yr hawliau statudol angenrheidiol i sicrhau bod y newidiadau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith. Byddai angen i hyn fod yn sail i unrhyw ddull rhanbarthol.

***3. Gweithredu model trydyddol y gellir ei addasu ledled Cymru***

O ystyried daearyddiaeth Cymru a phatrymau'r ddarpariaeth gyfredol, byddai'n anodd iawn rhoi un ateb sy'n addas i bawb ar waith.

Er y gallai model trydyddol lwyddo mewn ardaloedd trefol, mae'n ymddangos bod costau

cyfalaf a gwleidyddol cyflwyno'r model hwn ledled Cymru yn rhy uchel.

4. ***Mabwysiadu dull wedi'i deilwra sy'n diwallu anghenion gwahanol ardaloedd awdurdod lleol***

Yn y tymor byr, mae'n ymddangos mai dull ardal leol yw'r ffordd fwyaf dichonadwy o gyflwyno unrhyw newidiadau. Bydd angen i strategaeth bolisi briodol bennu a ddylai adolygiadau a newidiadau gael eu gweithredu ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn unig neu i ddarpariaeth ôl-16 yn ei chyfanrwydd.

Mae dull integredig, sy'n cynnwys y ddarpariaeth ôl-16 yn gyfan, yn cyflwyno'i hun fel y ffordd fwyaf cytbwys ymlaen. Dylai gael ei weithredu gan bartneriaethau 'ardal leol', sy'n cael eu harwain gan yr awdurdod lleol neu gan gorff arall, a dylent gynnwys y prif bartneriaid strategol ôl-16, er mwyn sicrhau cydweithio ac arlwy ôl-16 lleol cyson.

Byddai angen iddo gael ei ategu ymhellach gan: adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r cymhellion ariannol sy'n cael eu talu i ysgolion a cholegau, a gosod targedau ar gyfer cael gwared ar lefydd dros ben, gwella deilliannau cymwysterau, lleihau dyblygu darpariaeth a'r effaith ar faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

**Ymchwil y Dyfodol**

4.3 Mae'r astudiaeth wedi tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth ac enghreifftiau o arfer da lle gellir dysgu gwersi gwerthfawr. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys:

- Datblygu data cymaradwy ar gyfer ysgolion a cholegau ar gyfraddau cadw, cwblhau a chyrhaeddiad, gan ddefnyddio meincnodau cyffredin.
- Casglu tystiolaeth ar faint o groes-gymorthdalu rhwng dosbarthiadau chwech a gweddill cyllideb yr ysgol sy'n digwydd mewn ysgolion ac effaith hynny ar ddysgwyr a deilliannau.
- Edrych ar y posibilrwydd o ymelwa rhagor ar e-ddysgu a monitro'i effaith ar gyfraddau cadw a chyrhaeddiad myfyrwyr.
- Coladu tystiolaeth yn ymwneud â ffactorau y mae angen eu hystyried mewn perthynas â dewisiadau seiliedig ar ffydd.
- Pennu arfer da drwy gynnal astudiaeth achos o ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r arlwy ôl-16 wedi cael ei gysoni.
- Dysgu gwersi o ysgolion cyfrwng Cymraeg y nodwyd eu bod yn gweithredu arfer da drwy sefydlu cysylltiadau cydweithio trawsffiniol a manteisio ar botensial e-ddysgu a'r defnydd o athrawon symudol.
- Bylchau yn y dystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â: phrinder athrawon ac adnoddau eraill mewn pynciau galwedigaethol a sut gellid llenwi'r bwlch hwn; sut gellir gwella poblogrwydd a phroffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sector ôl-16 a thu hwnt, yn cynnwys gweithio'n agosach gyda rhieni.

Awdur yr Adroddiad: Yr Athro Sue Maguire

Maguire Policy Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Maguire, S. (2016). *Papur gwyntyllu ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ar gael yn:
http://gov.wales/statistics-and-research/think-piece-possible-options-improving-performance-efficiency-sixth-forms/?lang=cy

**Barn yr ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Joanne Corke
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1138
E-bost: research.evaluation@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 6030-0